



Cyfarfod Blynyddol 2020

Adroddiad y Trysorydd

(elusen rhif 1190243)

Mae'r adroddiad yma i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2019-20.

Aelodaeth: 'Roedd gan y Clwb 281 aelod yn talu £20 yr un (£5620). Yn ogystal derbyniwyd £733 gan unigolion nad ydynt mwyach yn aelodau o'r Clwb – yn cynnwys 35 taliad o £15, 8 taliad llai na £15 a nifer o daliadau gan unigolion sy'n anhysbys.

Mae'r taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig yn £20.25 yr aelod. Gan fod y coffrau'n iach (gweler isod) a'r incwm yn fwy na'r gwariant mae'r Pwyllgor o'r farn nad oes angen cynyddu'r tâl aelodaeth ar gyfer 2021. Bydd angen ei adolygu eto ymhen blwyddyn.

Teithiau: Taith Crianlarich yn Chwefror oedd yr unig un preswyl i'w chynnal a gwnaeth 'elw' o £260. Trefnwyd a thalwyd blaendal ar ddwy daith arall, Hawes a Glenshiel, oedd i'w cynnal fis Mai ond bu'n rhaid eu gohirio. Ar hyn o bryd mae cyfanswm o £5134.20 yn y coffrau ar gyfer talu am y ddwy daith yma pan gânt eu hail-drefnu.

Eisteddfod: Mae'r incwm yn cynrychioli dau daliad am hawliau darlledu ac erthygl yn Barn. Mae'r gwariant yn cynrychioli un anfoneb hwyr o 2019 a blaen-daliad am ddarlith yn 2021.

Gwariant arall: Costau rhedeg arferol y Clwb ydi'r costau gweinyddol a chostau'r wefan sy'n dod i gyfanswm o £558.40 ar gyfer 2019-20.

Balansau: Ar yr wyneb mae'r cyfrifon yn dangos bod y Clwb yn diweddu'r flwyddyn gyda £5382 yn fwy nag oedd ganddo ar y dechrau ond mae hyn bron i gyd i'w briodoli i'r arian sy'n cael ei gadw i dalu am deithiau Hawes a Glenshiel (gweler uchod). O ddiystyru'r arian teithiau y gwir sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ydi cynnydd o £247.80 yn y coffrau.

Mae gan y Clwb £12,015.56 yn y banc sy'n cynnwys y £5134.20 ar gyfer y teithiau a chronfa gyffredinol o £6881.36. Mae angen cadw arian wrth gefn fel hyn er mwyn sicrhau llif arian digonol gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy'n mynychu.

*Dilys Phillips
19 Hydref 2020*